Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

2016 - 2021

Strategaeth Gaffael a Chomisiynu

Ebrill 2016

RHAGAIR

Mae'r Cyngor yn ymdrin â phwysau ariannol sylweddol yn sgil gostyngiadau yng nghyllid y llywodraeth, ynghyd â'r disgwyliadau cynyddol uwch sydd gan ein trigolion a busnesau. Mae angen i ni wneud arbedion a bydd sicrhau ein bod yn defnyddio ein grym gwario yn ddoeth a strategol yn rhan sylfaenol o hyn. Yn y cyd-destun hwn, mae ein Strategaeth Gaffael a Chomisiynu yn bwysicach nag erioed. Gan ein bod yn gwario tua £100 miliwn bob blwyddyn ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynir i mewn, mae'n hollbwysig ein bod yn rheoli hyn mewn ffordd gyfrifol i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian ar gyfer ein dinasyddion ac yn cefnogi ein hamcanion corfforaethol ehangach.

Mae'r strategaeth hon yn nodi saith egwyddor allweddol a fydd o gymorth i arwain ein holl waith caffael a chomisiynu, gan sicrhau ein bod yn gweithredu yn gyfreithlon a thryloyw â dealltwriaeth gywir o'r effaith ar ein cymunedau lleol, yn awr ac yn y dyfodol. Mae canlyniad penodol i'r strategaeth hefyd, sef sicrhau gwerth am arian drwy ein gwaith caffael a chomisiynu, ac amlinellir sut y byddwn yn ystyried gwahanol fodelau cyflenwi, adolygu ein prosesau, defnyddio technoleg, gwella ein dulliau o reoli contractau a buddsoddi i wella sgiliau ein gweithlu er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn.

Ar yr un pryd, mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod bod yr arian a gaiff ei wario gan y Cyngor yn cael effaith ar yr economi leol, gan fod tua £32 miliwn o'n holl wariant yn 2014/15 yn mynd ar fusnesau sydd wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych. Mae'r gwariant hwn o gymorth i sicrhau bod y busnesau hynny yn parhau i gynnig gwaith i bobl leol, ac yn rhoi cyfle iddynt dyfu a chreu swyddi newydd yn y Sir. Mae canlyniad penodol i'r strategaeth mewn perthynas â gwell cyfraniad ein gwaith caffael a chomisiynu i'r economi leol, a sut y byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio gyda'n cadwyn gyflenwi leol, datblygu dulliau newydd o gaffael a chomisiynu i sicrhau bod cyfleoedd i fusnesau lleol yn y dyfodol, a defnyddio cymalau mewn contractau i gynnig buddion ehangach i'r gymuned, megis lleoliadau hyfforddi a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi i fusnesau lleol.

Er mwyn cyflawni'r strategaeth hon, rydym yn cydnabod y bydd angen gwneud rhai newidiadau mawr yn y ffordd rydym yn caffael a chomisiynu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn arwain at ddulliau newydd o weithio ac, mewn rhai achosion, yn newid swyddogaethau a chyfrifoldebau. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i'r newid hwn a bydd yn rhoi'r arweiniad clir a chymorth y bydd eu hangen er mwyn sicrhau llwyddiant.

Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill
Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithlonrwydd

CYFLWYNIAD

Pwrpas y Strategaeth

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwario tua £100 miliwn y flwyddyn ar sefydliadau yn y sectorau preifat a'r trydydd sector i brynu'r nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Cyfrifoldeb y Cyngor yw rheoli'r arian hwn yn effeithlon ac effeithiol i gyflawni amcanion y Cyngor. Pwrpas y strategaeth hon yw nodi sut rydym yn newid trefn gaffael a chomisiynu'r Cyngor a chyflwyno'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion yn well.

Nod y strategaeth hon yw hybu gwaith caffael a chomisiynu effeithiol ar draws yr holl sefydliad. Bydd o gymorth i bob swyddog mewnol sydd yn ymwneud â gwaith comisiynu a chaffael i gael gwell dealltwriaeth o'i swyddogaeth wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon. Mae hefyd yn gosod sylfaen ar gyfer rhyngweithio gyda grwpiau allweddol eraill sy'n rhanddeiliaid; yn bennaf, ein cyflenwyr, y cyhoedd a'u haelodau etholedig.

Nodau'r strategaeth hon yw:

- Sefydlu cyfeiriad strategol clir a blaenoriaethau ar gyfer newid
- Sefydlu egwyddorion polisi comisiynu a chaffael allweddol
- Nodi'n eglur yr hyn rydym am ei wneud a pham

Datblygwyd y strategaeth hon â gwerthfawrogiad llawn o'r fframwaith rheoleiddio cymhleth y mae caffael a chomisiynu yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae hefyd yn cydnabod bod hwn yn faes lle ceir risgiau uchel – gellid cael effaith sylweddol ar y gwasanaethau a ddarperir, rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth gyfreithiol, yn ogystal ag enw da cyffredinol y Cyngor.

Beth yw Caffael?

At ddibenion y strategaeth hon, rydym wedi defnyddio'r un diffiniad o'r broses gaffael ag a nodir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru (Mehefin 2015):

> *"proses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan yn nhermau cynhyrchu manteision, nid yn unig i'r sefydliad caffael, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan greu'r difrod lleiaf i'r amgylchedd"*

Beth yw Comisiynu?

Yn ei hanfod, mae a wnelo comisiynu gwasanaethau cyhoeddus ag asiantaethau'r sector cyhoeddus yn gweithio gyda phwrcaswyr, darparwyr ac, yn bwysicaf oll, cymunedau, i nodi a deall anghenion defnyddwyr er mwyn cynllunio gwasanaethau i fodloni'r anghenion hynny. Gwneir hyn drwy ddilyn proses sydd wedi'i strwythuro a'i chynllunio a elwir yn gylch comisiynu (gweler isod), er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu gwella a'u datblygu yn ôl profiadau'r gorffennol ac anghenion presennol y gymuned.

Y Cylch Comisiynu



Mae comisiynu da yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

1. Deall anghenion y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth
2. Ymgynghori â sefydliadau sy'n darparu wrth bennu blaenoriaethau
3. Rhoi'r canlyniadau i'r defnyddwyr wrth galon y broses
4. Mapio'r dewis ehangaf o ddarparwyr ag sy'n ymarferol
5. Ystyried buddsoddi yn y darparwyr
6. Sicrhau bod prosesau contractau yn dryloyw a theg
7. Sicrhau contractau hirdymor a rhannu risg
8. Gofyn am adborth i adolygu effeithiolrwydd y broses gomisiynu

Yn yr achosion hynny lle bydd gwasanaethau'r Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau ac yn dylanwadu ar fywydau bob dydd dinasyddion, megis ym maes gofal cymdeithasol, bydd meysydd gwasanaeth yn defnyddio'r cylch comisiynu i ddatblygu strategaethau a chynlluniau penodol sy'n glynu at yr wyth egwyddor o gomisiynu da.

TREFNIADAU PRESENNOL

Tîm Caffael ar y Cyd

Ar 1 Gorffennaf 2014 llofnodwyd cytundeb rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint i sefydlu gwasanaeth caffael newydd ar y cyd. Gweledigaeth y gwasanaeth newydd hwn yw:

- gweithredu gwasanaeth caffael corfforaethol medrus a gwych ar y cyd sy'n darparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer y ddau sefydliad a gwasanaethau unigol i gyflawni amcanion corfforaethol a gwasanaethau a chyrraedd targedau effeithlonrwydd;

- gwneud y gorau o'r arbedion a ddaw yn sgil gwaith caffael er budd trigolion a busnesau Sir Ddinbych a Sir y Fflint; a

- datblygu capasiti a chydnerthedd proffesiynol i greu tîm caffael sy'n perfformio orau, yn cynnig buddion i'r sefydliadau a datblygiad proffesiynol personol i'r tîm.

Cyngor Sir Ddinbych sy'n cynnal y tîm (h.y. mae'r contractau cyflogaeth gyda Sir Ddinbych yn hytrach na Sir y Fflint), ond mae'n darparu gwasanaeth ar y cyd ar draws y ddau gyngor. Mae'r tîm yn cynnwys Rheolwr Caffael Strategol, pum Uwch Swyddog Caffael a phedwar Swyddog Caffael. O safbwynt eu gweithgareddau, mae cylch gwaith eu cyfrifoldebau fel a ganlyn:

- Polisi – datblygu cyngor ar ddeddfwriaeth a pholisïau fframwaith rheoleiddio sy'n effeithio ar y broses gaffael; datblygu, a chynnal a gweithredu Strategaethau Caffael Corfforaethol y priod Gynghorau.

- Rheoli o ddydd i ddydd – rheoli'r contractau corfforaethol perthnasol (e.e. Matrics Fframwaith Asiantaethau); darparu arweiniad strategol i'r holl waith caffael; gweithio gyda meysydd gwasanaeth i nodi cyfleoedd ar gyfer cydlynu a chydweithio; cydlynu mentrau â'r nod o wella grym prynu a gostwng prisiau; arwain ar fentrau a phrosiectau caffael corfforaethol (e.e. e-Gaffael); mesur perfformiad; a chynnal ymchwil ym maes caffael.

- Cyngor – cynghori a rhoi cymorth i feysydd gwasanaeth wrth baratoi dogfennau tendro; datblygu a chyflenwi rhaglen hyfforddiant ym maes caffael; datblygu a llunio canllawiau a gwybodaeth am y broses gaffael sy'n glir a hawdd eu deall; a rhannu enghreifftiau o arfer gorau ym maes caffael.

- Cydymffurfiaeth – datblygu systemau a dangosyddion perfformiad corfforaethol i fonitro'r cyflenwad o nwyddau a gwasanaethau; sicrhau y glynir at brosesau caffael a gytunwyd; datblygu, hybu a chynnal atebion i reoli'r gadwyn gyflenwi; dadansoddi tueddiadau a gwariant i nodi meysydd ar gyfer gwella cydlyniant wrth brynu; llunio adroddiad blynyddol ar y gwaith caffael, gwariant ac arbedion; a sicrhau safonau caffael corfforaethol ar draws pob maes gwasanaeth,

- Cyswllt – cynrychioli'r Cyngor (Cynghorau) ar gyrff allanol sy'n gysylltiedig â chaffael; cysylltu a rheoli'r berthynas â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus sy'n prynu a chonsortia allanol; a darparu cyswllt canolog rhwng y Cyngor (Cynghorau) a'r farchnad gyflenwyr/darparwyr.

Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

Mae sawl menter reoleiddio, strategol a pholisi yn effeithio ar y broses gaffael a chomisiynu ar lefel genedlaethol. Mae'n bwysig sicrhau bod y strategaeth gaffael yn eu cydnabod ac yn mapio'r ffordd y gallwn sicrhau cydymffurfiaeth lle bo'r angen gan gynorthwyo i gyflawni canlyniadau ehangach.

Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

Daeth Cyfarwyddeb Gaffael yr UE 2014 yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru pan ddaeth Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 i rym ym mis Chwefror 2015. Un o brif themâu y Rheoliadau yw gwneud caffael cyhoeddus yn gynt, yn fwy hyblyg ac yn haws – yn enwedig i fusnesau bach a chanolig (SMEs). Rhaid i'r strategaeth gaffael sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio'n gyfreithiol â'r rheoliadau diwygiedig ym mhob agwedd ar ei waith caffael a chomisiynu. Mae rhai o'r newidiadau rheoleiddiol hefyd yn galw am gyflwyno newidiadau ar unwaith, gan gynnwys:

- yr angen i adolygu a diwygio y Rheolau Gweithdrefnau Contractau presennol i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth newydd;

- adolygu'r prosiectau caffael sydd yn y biblinell ar hyn o bryd ar drothwy arfaethedig Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU), i sicrhau bod staff yn gwerthfawrogi'r angen i ddogfennau caffael fod ar gael ymlaen llaw, a gwreiddio hyn fel arfer gorau hyd yn oed ar lefelau is na throthwyon yr OJEU; a

Datganiad Polisi Caffael Cymru

Ym mis Rhagfyr 2012 lansiodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Polisi Caffael Cymru a oedd yn nodi'r egwyddorion yr oedd yn disgwyl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru eu dilyn wrth wneud gwaith caffael yng Nghymru. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau pwerau deddfwriaethol mewn perthynas â chaffael yng Nghymru, a diwygiwyd y ddogfen. Ym mis Mehefin 2015, lansiwyd Datganiad diwygiedig.

Deg egwyddor Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru yw:

- Strategol – dylai gwaith caffael gael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth gorfforaethol strategol.
- Adnoddau proffesiynol – dylai gwariant caffael fod yn ddarostyngedig i lefel briodol o gyfraniad a dylanwad proffesiynol.
- Effaith Economaidd, Gymdeithasol ac Amgylcheddol – dylid ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan.
- Buddion Cymunedol – cyflenwi buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy ddefnyddio'r polisi Buddion Cymunedol yn effeithiol.
- Cystadleuaeth agored, hygyrch – dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod cyfleoedd contract ar gael i bawb.
- Prosesau Safonol Syml – dylai prosesau caffael fod yn agored a thryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol.
- Cydweithredu – dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau safonol.
- Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi – dylid gwella trafodaeth â chyflenwyr er mwyn helpu i gael yr ymateb gorau o'r farchnad.
- Datblygu a Gweithredu Polisi – rhoi polisi ar waith sy'n cefnogi cyflawni'r saith nod llesiant i Gymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)
- Mesur ac Effaith – yn unol ag arferion rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau gwaith caffael i gefnogi gwelliannau parhaus.

Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC)

Lansiwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i Gymru (GCC) ym mis Tachwedd 2013, ac fe'i sefydlwyd i alluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gydweithio'n agosach wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau yn wyneb pwysau cyllidebol na welwyd eu tebyg o'r blaen. Llywodraeth Cymru sy'n cynnal y GCC ac yn ystod y 3 blynedd cyntaf bydd yn derbyn £5.9m o Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Ar ôl y 3 blynedd cyntaf bydd y GCC yn ei ariannu ei hun.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn un o dros 73 o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi cytuno i fod yn rhan o'r fenter ac ymrwymo i ddefnyddio contractau a fframweithiau a gaiff eu hwyluso gan y GCC ym meysydd gwariant cyffredin ac ailadroddus am gyfnod o 5 mlynedd. Er bod sicrhau arbedion ar nwyddau a gwasanaethau yn flaenoriaeth i'r GCC, bydd hybu adfywiad economaidd lleol, buddion cymunedol a chefnogi busnesau bach a chanolig a'r sector gwirfoddol wrth gystadlu am gontractau'r sector cyhoeddus yng Nghymru hefyd yn bwysig.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Fe'i cynlluniwyd i wneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda'i gilydd a gyda phobl a chymunedau, ceisio atal problemau a gweithredu mewn dull mwy cydgysylltiedig er mwyn creu Cymru lle'r ydym oll am fyw – yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod y 7 nod llesiant a ganlyn:

1. Cymru lewyrchus – cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyflogaeth.

2. Cymru gydnerth – cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).

3. Cymru iachach – cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

4. Cymru sy'n fwy cyfartal – cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

5. Cymru o gymunedau cydlynus – cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.



Y CYD-DESTUN LLEOL

Ar lefel fwy lleol, mae'n bwysig cydnabod y cyfraniad y gall gwaith caffael ei wneud i gyflawni ein dyheadau a'n blaenoriaethau.

Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017

Mae'r Cynllun Corfforaethol 2012 – 2017 yn nodi uchelgais y Cyngor nid yn unig i gynnal ansawdd ei wasanaethau, ond hefyd i'w gwella. Mae'n nodi 7 prif flaenoriaeth i'r Cyngor a'r arian ychwanegol y bydd ei angen i gyflawni'r uchelgais hon. Yn amlwg, bydd pa mor effeithiol y byddwn yn gwario'r arian hwnnw yn effeithio'n uniongyrchol ar ein gallu i gyflawni ein huchelgais a'n blaenoriaethau. Felly mae'r Cyngor yn cydnabod bod strategaeth gomisiynu a chaffael effeithiol yn hanfodol i sicrhau llwyddiant sefydliadol ac yn allweddol wrth gyflenwi'r Cynllun Corfforaethol, gan y bydd:

- yn cael effaith uniongyrchol ar wariant, arbedion, gwerth am arian a chost cyffredinol darparu gwasanaethau i bobl Sir Ddinbych;
- o gymorth wrth gynllunio'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau i fodloni anghenion dinasyddion, cymunedau a chwsmeriaid;
- yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol a gwasanaethau; a
- darparu mecanwaith ar gyfer cyflawni amcanion polisi allweddol.

Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 2013 - 2023

Un o brif ganlyniadau Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013 – 2023 yw fod gwaith caffael y Cyngor o fudd i fusnesau a thrigolion. Cyfyngir ar allu'r Cyngor i gyfeirio ei waith caffael i fusnesau lleol gan reoliadau caffael a'r angen i sicrhau gwerth am arian drwy gontractau rhatach, ac mae cydbwyso hyn â'r dyhead i gefnogi busnesau lleol yn gryn her. Fodd bynnag, gall y strategaeth gaffael fod o gymorth drwy:

- nodi mecanweithiau i wella cyfathrebu a chymorth i fusnesau lleol fel eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd i werthu i'r Cyngor ac yn deall gofynion y prosesau caffael cyhoeddus a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- symleiddio a safoni ein prosesau i'w gwneud mor hawdd â phosibl i fusnesau ymgeisio am gontractau'r Cyngor; a
- defnyddio gwybodaeth a data rheoli perfformiad mewn ffordd fwy strategol i gynorthwyo busnesau lleol i ymgeisio am gyfleoedd cyflenwi yn y dyfodol, neu hyd yn oed ddatblygu neu ddenu busnesau newydd i gyflenwi'r Cyngor lle ceir bylchau yn y farchnad yn lleol.

Cynllun Llesiant Sir Ddinbych 2014 - 2018

Datblygwyd Cynllun Llesiant Sir Ddinbych gan Fwrdd Partneriaeth Strategol Sir Ddinbych. Aelodau'r Bwrdd yw uwch swyddogion Cyngor Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Coleg Cambria, Grŵp Llandrillo Menai a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar Annibyniaeth a Gwytnwch – yn cydnabod fod pobl yn annibynnol pan fydd ganddynt ryddid i wneud dewisiadau drostynt eu hunain a'r gallu i fyw eu bywydau gydag ychydig iawn o gymorth gan eraill, a'u bod yn wydn neu'n gryf pan fyddant yn defnyddio adnoddau a gwybodaeth i ymdopi ag adfyd a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Mae'r meysydd blaenoriaeth yn cynnwys mynd i'r afael â heriau ein hardaloedd gwledig; cefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig i adeiladu eu gwytnwch; ac adeiladu gallu cymunedau i ddatblygu a ffynnu. Bydd gan y Strategaeth Gaffael swyddogaeth allweddol i sicrhau llwyddiant yn y meysydd hyn drwy:

- ystyried sut y gallem gydweithio'n fwy effeithiol gyda sefydliadau sy'n bartneriaid wrth gaffael neu gomisiynu i gyflenwi gwasanaethau yn fwy effeithiol yn ein meysydd blaenoriaeth; a

- galluogi newid fel bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn atgyfnerthu annibyniaeth a llesiant pobl, yn hytrach nag analluogi neu gyfyngu ar annibyniaeth a gwytnwch unigolion a chymunedau.

YR HERIAU I'R BROSES GAFFAEL YN Y DYFODOL

Yn amlwg, mae angen mynd i'r afael â sawl her fel rhan o'r strategaeth gaffael hon.

Yr angen am arbedion yn erbyn yr economi leol

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r effaith y gall lleihad mewn gwariant cyffredinol ei gael ar yr economi leol a thros y blynyddoedd nesaf bydd yn rhaid i'r Cyngor barhau i wneud rhai penderfyniadau anodd i gydbwyso'r angen am arbedion yn erbyn yr angen i gefnogi'r economi leol. Er mwyn gwneud yr arbedion angenrheidiol, bydd yn rhaid i'r cyngor ystyried sut y gall wneud arbedion maint drwy osod contractau mwy neu drwy gydweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid megis y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a/neu sefydliadau eraill y sector cyhoeddus. Gallai'r dull hwn o weithredu fod yn anfanteisiol i fusnesau llai lleol nad ydynt efallai'n ddigon mawr i wasanaethu contractau mawr o'r fath, neu nad oes ganddynt yr amser na'r arbenigedd i gymryd rhan yn y broses ymgeisio.

Bydd angen i'r strategaeth gaffael ymateb i'r her hon drwy:

- Argymell dull o weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau fel Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB), Busnes Cymru a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i sicrhau bod hyfforddiant a chymorth digonol i fusnesau lleol a'r trydydd sector pan fyddant yn cystadlu am gontractau'r cyngor.

- Amlinellu sut y gallwn ymgysylltu'n rhagweithiol gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i sicrhau y caiff contractau a osodir yn genedlaethol eu strwythuro mewn ffordd sy'n rhoi cyfleoedd i fusnesau yn Sir Ddinbych, a/neu ddarparu canllawiau yn nodi o dan ba amgylchiadau y byddem yn dymuno peidio â bod yn rhan o'r trefniadau cenedlaethol pan fyddwn o'r farn y gellir sicrhau gwell gwerth am arian neu fuddion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol mwy sylweddol drwy weithredu yn fwy lleol.

Disgwyliadau Llywodraeth Cymru

Dangosodd y fersiwn ddiwygiedig ddiweddar o Ddatganiad Polisi Caffael Cymru pa mor bwysig yw'r broses gaffael i Lywodraeth Cymru a sut y gallai'r broses gaffael fod o gymorth i gyflawni ei amcanion polisi – yn enwedig o safbwynt trechu tlodi – ac yn fwy cyffredinol sut y gallai fod o gymorth i sicrhau arbedion sylweddol o ran costau. Hefyd, disgwylir i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth eilaidd yn ymwneud â'r drefn gaffael o dan y pwerau newydd y disgwylir iddo eu cael yn dilyn cyhoeddiad Papur Gorchymyn ym mis Chwefror 2015 , a'r maes cyntaf y bydd yn debygol o ganolbwyntio arno yw buddion cymunedol.

Bydd angen i'r strategaeth gaffael ymateb i'r her hon drwy:

- Sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r disgwyliadau a nodir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru a'r ddeddfwriaeth eilaidd newydd sydd ar y gweill, wrth i ni ddatblygu unrhyw weithdrefnau neu bolisïau caffael lleol.

- Nodi polisïau a disgwyliadau clir mewn perthynas â buddion cymunedol a sut y dylid eu cynnwys mewn dogfennau tendro a chontractau.

1. Pwerau at Bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru, Chwefror 2015 (HM Government)

Gwendidau gwaith caffael yn y gwasanaethau

Datgelodd adolygiad diweddar o waith caffael fod nifer o wendidau yn y ffordd y caiff y drefn gaffael ei rhoi ar waith yn y gwasanaethau, gan gynnwys y pwyntiau a ganlyn:

- mae arbenigedd, sgiliau a gwybodaeth staff yr adrannau gwasanaeth ym meysydd caffael, comisiynu a chyfrifoldebau rheoli contractau yn amrywio'n fawr ar draws yr adrannau;
- ymddengys fod yr hyfforddiant a gwaith datblygu mewn perthynas â'r drefn gaffael, comisiynu a rheoli contractau o fewn yr adrannau gwasanaeth yn anffurfiol iawn ac nid ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol;
- mae'r gwaith o reoli perfformiad unigolion sy'n ymwneud â gwaith caffael, comisiynu a rheoli contractau o fewn yr adrannau gwasanaeth yn afreolaidd neu nid yw'n cael ei wneud o gwbl;
- mae'r dull o ymwneud â'r farchnad gyflenwi yn anghyson a defnyddir sawl dull gwahanol;
- mae meddylfryd ynysig yn cyfyngu ar gyfleoedd i gydweithio'n fewnol;
- yn aml, mae diffyg gwaith cynllunio cywir wrth wneud gwaith caffael
- ni chydymffurfir â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau bob amser.

Mae hyn oll yn golygu fod y meysydd gwasanaeth a'r tîm caffael corfforaethol sy'n eu cefnogi, yn aml yn ymateb i argyfyngau fel y maent yn codi, ac mewn achosion mwy eithafol, yn gweithredu'n groes i'r rheoliadau gan arwain at gosbau ariannol cysylltiedig i'r Cyngor. Mae'r diffyg cysondeb a chynllunio cywir hefyd yn creu dryswch i'n cyflenwyr a gall eu rhwystro rhag cael cyfleoedd gyda'r cyngor.

Un o'r prif heriau a fydd yn wynebu'r drefn gaffael yn y dyfodol, fydd y ffordd y byddwn yn gwella ymwybyddiaeth ac arbenigedd o fewn meysydd gwasanaeth, ac mae angen i'r strategaeth ymateb drwy:

- Amlinellu pa fesurau a chymorth a fydd ar gael i wella prosesau caffael a chydymffurfiad o fewn meysydd gwasanaeth
- Nodi sut y byddir yn sefydlu mwy o drefniadau corfforaethol i oruchwylio'r gwaith caffael er mwyn sicrhau gwell cynllunio a mwy o atebolrwydd ar faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiad

Cyfyngiadau cyllidebol yn erbyn capasiti mewnol i sicrhau rhagoriaeth ym maes caffael

Er bod Datganiad Polisi Caffael Cymru yn argymell o leiaf un gweithiwr caffael proffesiynol i bob £10 miliwn o wariant, mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod eisoes ymhell o wireddu'r dyhead hwnnw, ac mae'r tîm caffael corfforaethol presennol yn darparu oddeutu un swyddog i bob £20 miliwn ar draws Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni, a'r hyn sy'n debygol yn y dyfodol, mae'n anodd rhagweld sefyllfa lle gallai'r Cyngor gynyddu cyllideb y tîm caffael i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru. Yn wir, mae'n fwy tebygol y bydd adnoddau yn mynd yn llai a gallai hyn arwain at leihau maint y tîm ac agor bwlch mwy rhwng y dyhead a'r realiti.

2. Sefydliad Astudiaethau Cystadleuaeth a Chaffael Prifysgol Bangor 2013

Ar ben hyn, nododd yr adolygiad y cyfeiriwyd ato yn yr adran flaenorol, fod y cymorth cyfreithiol a roddir i'r maes caffael hefyd yn annigonol o ran capasiti gan arwain at rwystrau yn y system a chymhlethdodau diangen. Bydd ailstrwythuro gwasanaethau a thimau o fewn y sefydliad ehangach hefyd yn debygol o arwain at leihad yn nifer y staff a gallai hyn osod pwysau ychwanegol o ran capasiti ar y staff hynny a fydd yn aros ac a fydd ynghlwm â gwaith caffael (yn gorfforaethol ac o fewn gwasanaethau).

Bydd angen i'r strategaeth gaffael ymateb i'r her hon drwy:

- Ystyried sut y gallwn gynnal gwasanaeth caffael corfforaethol effeithiol yn wyneb cyllidebau sy'n crebachu

- Hefyd, bydd angen i'r tîm corfforaethol hwnnw ystyried pa fesurau y gellid eu cyflwyno i reoli llwythi gwaith yn effeithiol, cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ac, yn fwy cyffredinol, sut y gallwn gadw, neu recriwtio, swyddogion caffael ymroddedig, llawn cymhelliant.

Ymgorffori'r defnydd o dechnoleg newydd

Bydd cyflwyno a defnyddio technoleg newydd megis Proactis i gyflwyno ac asesu tendrau yn ddull allweddol o wella perfformiad, cysondeb a chydymffuriad, a bydd hefyd o gymorth i sicrhau arbedion. Er mwyn gwneud y gorau o'r buddion mae angen defnyddio technoleg o'r fath yn gorfforaethol ar draws y sefydliad, a rhaid i'r dechnoleg honno fod mor naturiol a syml â phosibl i bobl ei defnyddio er mwyn hybu canlyniad sy'n "gywir y tro cyntaf".

Rydym eisoes wedi gwneud y buddsoddiad ariannol angenrheidiol i gael yr atebion technolegol, ond mae angen cydbwyso hyn â buddsoddiad mewn adnoddau i sicrhau y caiff y dechnoleg ei chyflwyno'n effeithiol, bod cymorth ymarferol ar gael i'w defnyddio, a bod newid o ran diwylliant gan olygu y daw'r dechnoleg newydd yn rhan o'r drefn arferol ac y caiff unrhyw systemau a phrosesau blaenorol eu datgomisiynu.

Bydd angen i'r strategaeth gaffael ymateb i'r her hon drwy:

- Amlinellu sut y defnyddir technoleg i wella perfformiad a chydymffurfiad, a pha fesurau rheoli a gyflwynir i gefnogi'r broses o'i rhoi ar waith

Gwasanaeth Caffael ar y Cyd â Sir y Fflint

Bydd y Gwasanaeth Caffael ar y Cyd â Sir y Fflint yn arwain at rai buddion gwirioneddol ond bydd hefyd yn gosod rhai heriau. Yn ddelfrydol byddai'r holl brosesau a pholisïau yn cael eu cysoni er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddion a sicrhau cysondeb o ran arferion caffael yn fewnol gyda swyddogion y cyngor, a hefyd yn allanol gyda'n cyflenwyr. Ar hyn o bryd, mae rhai gwahaniaethau rhwng y ddau awdurdod, er enghraifft, nid oes cysondeb rhwng y Rheolau Gweithdrefnau Contractau (CPRs). Er y bydd strwythurau sefydliadol, trefniadau rheoli a blaenoriaethau gwleidyddol gwahanol bob amser yn ei gwneud yn anodd i sicrhau cysondeb llwyr, dylai'r strategaeth geisio:

- Datblygu fformat y ddogfen strategaeth a dogfennau cysylltiedig fel bod modd eu cyfieithu'n hawdd a'u mabwysiadu gan Sir y Fflint; a hefyd

- Cysoni prosesau a pholisïau'r ddau awdurdod, i'r graddau y bo hynny'n bosibl

Y STRATEGAETH

Prif egwyddorion

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i osod safonau ansawdd manwl a gweithdrefnau comisiynu a chaffael cadarn i sicrhau y caiff yr holl waith comisiynu a chaffael ei reoli a'i gynnal yn gywir yn unol â holl ofynion deddfwriaethol a chanllawiau lleol, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod pob punt y byddwn yn ei gwario yn cynnig gwerth am arian i'r cyngor a'n trigolion a busnesau cyfansoddol.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu gwireddu'r ymrwymiad hwnnw, ond er mwyn gwneud hyn mae'r cyngor yn gofyn i'r holl staff sy'n ymwneud â'r drefn gomisiynu a chaffael i hybu a glynu at yr egwyddorion a ganlyn:

1. Er mwyn cynorthwyo i leihau neu ddileu gwariant nad yw'n hanfodol, bydd pob aelod staff cyn dechrau ar waith comisiynu neu chaffael, yn gyntaf yn ystyried a oes ffordd arall y gellid cyflawni'r canlyniad heb i'r cyngor orfod gwario o gwbl, neu o leiaf leihau'r gwariant.

2. Wrth wneud gwaith caffael neu gomisiynu, rhaid i'r holl swyddogion ystyried eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan roi ystyriaeth i'r effaith a gaiff unrhyw benderfyniadau y byddwn yn eu gwneud ar bobl Cymru – yn awr ac yn y dyfodol. Dylid defnyddio'r "egwyddor datblygiad cynaliadwy" ym mhob agwedd ar y drefn gaffael.

3. Bydd pob maes gwasanaeth yn gweithio gyda'r tîm caffael corfforaethol i ddatblygu a gweithredu strategaethau a mecanweithiau priodol er mwyn sicrhau gwerth am arian o ran y nwyddau, gwasanaethau neu waith y maent yn eu caffael.

4. Rheolir ac arweinir pob ymarferiad caffael gan swyddog sydd â sgiliau sy'n briodol i werth y trefniant hwnnw a'r risg sy'n gysylltiedig ag ef, gan wneud y gwaith yn agored, yn onest ac yn atebol.

5. Byddir yn cydymffurfio â fframwaith rheoleiddio'r cyngor (rheolau gweithdrefnau contractau, rheoliadau dirprwyo ac ariannol), a gofynion cyfreithiol y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

6. Bydd yr holl staff sy'n ymwneud â'r broses o brynu nwyddau, gwasanaethau neu waith yn defnyddio contractau neu fframweithiau a negodwyd yn gorfforaethol ar draws y cyngor, lle byddant yn bodoli.

7. Byddir yn sicrhau y rhoddir

CANLYNIAD 1

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn sicrhau gwerth am arian o'r nwyddau, gwasanaethau a gwaith y mae'n eu caffael

Bu gan y cyngor ddyletswydd bob amser i sicrhau y gallwn ddangos gwerth am arian wrth gyflenwi ein gwasanaethau, ac yn wyneb pwysau ariannol cynyddol a'r angen i gydbwyso gostyngiadau mewn costau yn erbyn y galw cynyddol am wasanaethau, mae sicrhau gwerth am arian ar y nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynir gennym yn bwysicach nag erioed i'r cyngor. Fodd bynnag, wrth i'r mesurau llymder fynd rhagddynt a'r rhagolwg y bydd cyllidebau yn parhau i leihau, yn awr mae angen i ni fynd ymhellach na sicrhau gwerth am arian o ran y nwyddau, gwasanaethau a'r gwaith rydym yn eu caffael, a bod yn llawer mwy rhagweithiol wrth ystyried dewisiadau i osgoi gwario dim, neu o leiaf ystyried sut y gallwn leihau'n sylweddol faint rydym yn ei wario. Yn ogystal, mae costau gweinyddol sylweddol ynghlwm wrth ganfod, archebu a thalu am nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Felly, mae angen i ni sicrhau bod ein dull o weithio yn effeithlon ac effeithiol.

Byddwn yn gweithio i gyflawni'r canlyniad hwn drwy:

1. Ystyried gwahanol fodelau cyflenwi a mwy o gydweithio yn y gwasanaethau rydym yn eu darparu sy'n lleihau neu ddileu'r angen am wariant gan y cyngor;

2. Adolygu ein prosesau'n barhaus ac ymdrechu i'w gwneud mor syml â phosibl i ddefnyddwyr mewnol a'n cyflenwyr, gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith ar yr un pryd;

3. Gwneud gwell defnydd o dechnoleg i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y broses gomisiynu a chaffael; a

4. Gwella ein dulliau o reoli contractau i sicrhau y cyflenwir y contractau rydym yn eu llunio yn ôl y gyllideb ac yn unol â'r telerau ac amodau a gytunwyd, gan gynnwys dod ag unrhyw fuddion cymunedol angenrheidiol.

5. Buddsoddi mewn pobl a sgiliau i sicrhau bod gennym dîm trefnus â sgiliau addas, sydd â chymhelliad a chydnerthedd i sicrhau rhagoriaeth yn ein holl waith comisiynu a chaffael.

Modelau Cyflenwi

Pam y mae hyn yn bwysig?

Yn wyneb y sefyllfa ariannol bresennol a'r pwysau cyllidebol ar y Cyngor, mae'n bwysig ein bod yn adolygu'n barhaus yr hyn rydym yn ei gaffael a pham rydym yn ei gaffael, yn hytrach na gwneud yr hyn rydym wedi'i wneud erioed. Yn yr un modd ag y byddwn yn ystyried a oes angen llenwi swydd pan fydd aelod staff yn gadael, neu a oes dulliau eraill o gyflenwi'r gwasanaeth sydd ei angen, dylid cymryd yr un agwedd wrth ymdrin â'r broses gaffael. Cyn y gwneir unrhyw benderfyniad i gaffael dylem bob amser ystyried a oes model cyflenwi arall a fyddai'n dileu, neu o leiaf yn lleihau, yr angen i wario. Gallai hyn gynnwys cydweithio gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i adolygu'n sylfaenol natur gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ar hyn o bryd, neu weithio yn agosach gyda mudiadau'r trydydd sector i gyflenwi gwasanaethau hanfodol.

Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2021) rydym yn disgwyl y cyflenwir mwy o'n gwasanaethau drwy ddulliau cyflenwi eraill a fydd yn ein cynorthwyo i sicrhau gwell gwerth am arian.

Prosesau

Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae camgymeriadau a hepgoriadau yn gostus i'w cywiro o ran arian ac amser, felly mae "cael pethau'n iawn y tro cyntaf" yn ofyniad hanfodol os ydym am wella effeithlonrwydd yn y broses gaffael. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw cyflwyno systemau a phrosesau syml sy'n hawdd eu deall a'u dilyn. Bydd angen i ni sicrhau cydbwysedd bob amser rhwng y systemau a'r prosesau a ddefnyddir gennym â'r angen i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith, ond dylem geisio gwneud ein holl systemau a phrosesau yn "ddigon da" i fodloni'r gofynion hyn, yn hytrach nag ychwanegu cymhlethdodau ychwanegol a diangen. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i ni gyflwyno systemau a phrosesau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith a'n rheolau gweithdrefnau contractau mewnol ein hunain.

Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2021) rydym yn disgwyl y bydd yr holl staff sy'n ymwneud â gwaith caffael yn gyfarwydd â defnyddio'r systemau a phrosesau fydd yn eu lle, ac yn gymwys i'w defnyddio, ac na fydd unrhyw achosion o fethiant i gydymffurfio â'r gyfraith neu ein rheolau gweithdrefnau contractau mewnol ein hunain.

Defnydd o Dechnoleg

Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae technoleg yn chwarae rhan allweddol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y broses gaffael. Bydd gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg yn lleihau costau trafodion y cyngor a'i gyflenwyr, yn cyflymu amserlenni cyflenwi, yn gwella cydymffurfiad â chyfraith a rheoliadau caffael, ac yn gwella tryloywder yr holl broses gaffael yn gyffredinol. Bydd hefyd yn golygu bod modd cipio gwybodaeth rheoli sy'n hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth.

Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2021) rydym am allu dangos ein bod yn defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaeth caffael electronig holl gynhwysol i wella ansawdd a chysondeb y dull cyflenwi.

Rheoli Contractau

Pam y mae hyn yn bwysig?

Yn y gorffennol, rydym wedi rhoi llawer o bwyslais ar y cam yn y broses gaffael pan fyddwn yn gwahodd cynigion a dyfarnu contractau, yn hytrach nag ar reoli'r contractau hynny yn ddiweddarach. Mae sicrhau bod y contractau hyn yn cyflenwi'r hyn a ddisgwylir – o ran costau, amser, manyleb, a buddion cymunedol lle cânt eu cynnwys – yn allweddol i sicrhau gwerth am arian. Mae hyn yn gofyn am reoli'r contract yn weithredol a'i adolygu'n rheolaidd, yn hytrach na "gosod y contract ac anghofio amdano".

Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2021) rydym yn disgwyl i'n holl gontractau gael eu cyflenwi yn unol â'r gost a nodir yn nhelerau ac amodau'r contract ar y cam dyfarnu, ac eithrio pan gytunir a chofnodir yn ffurfiol unrhyw amrywiadau.

Pobl a Sgiliau

Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae gennym strategaeth uchelgeisiol sy'n cynnwys targedau anodd i'w cyrraedd, a dim ond pan fydd y bobl gywir a chanddynt y sgiliau, cyfleoedd datblygu a chefnogaeth yn eu lle, y byddwn yn llwyddo. Mae hyn yn gymwys i swyddogion y tîm caffael corfforaethol yn ogystal â swyddogion ar draws y cyngor sy'n gwneud gwaith comisiynu a chaffael.

Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2021) hoffem gael gweithlu trefnus â sgiliau addas, sydd â'r cymhelliad a'r cydnerthedd i sicrhau rhagoriaeth ym mhob un o'n gweithgareddau caffael.

CANLYNIAD 2

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwella cyfraniad ei waith caffael ar yr economi leol

Mae gwariant y cyngor yn ffactor allweddol i ysgogi datblygiad economaidd lleol a chreu economi ffyniannus a llewyrchus. Fodd bynnag, mae'r angen i sicrhau arbedion a gwelliannau o ran arbedion effeithlonrwydd yn anorfod o arwain at leihad yn nifer y cyflenwyr a chontractwyr sy'n masnachu'n uniongyrchol â'r cyngor. Er mwyn sicrhau bod ein gwaith caffael yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, mae'n bwysig i ni edrych ar ffyrdd o wella mynediad at y cyngor a'i gyfleoedd busnes a chefnogi datblygiad cyflenwyr lleol. Rydym am fod yn hyderus nad yw ein polisïau a'n gweithdrefnau caffael yn rhoi busnesau lleol dan anfantais a'u bod yn ei chael yn hawdd i wneud busnes gyda ni.

Byddwn yn gweithio i gyflawni'r canlyniad hwn drwy:

1. Weithio'n rhagweithiol i ddatblygu cyflenwyr lleol er mwyn sicrhau bod busnesau a'r trydydd sector yn ymwybodol o'r cyfleoedd i werthu i'r cyngor a'u bod yn gallu cyflwyno ceisiadau o ansawdd uchel pan fydd cyfleoedd yn codi;

2. Datblygu dulliau newydd o strwythuro ein cynigion a chontractau cysylltiedig i'r farchnad er mwyn sicrhau ein bod yn creu cyfleoedd i fusnesau lleol ymgeisio ac o bosibl cael busnes gan y cyngor;

3. Sicrhau gwell buddion cymunedol a mwy ohonynt drwy'r broses gaffael

Datblygu Cyflenwyr Lleol

Pam y mae hyn yn bwysig?

Gan ei fod yn debygol y bydd y Cyngor yn gwario llai o arian ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau o flwyddyn i flwyddyn yn y dyfodol rhagweladwy, mae'n bwysicach nag erioed i sicrhau bod cyfleoedd i fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych ymgeisio am gontractau gyda'r Cyngor, a'u hennill, lle bynnag y byddwn yn gwario'r arian hwnnw. Er mwyn sicrhau mai dyma fydd yn digwydd, mae angen i ni weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol megis Ffederasiwn y Busnesau Bach, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Busnes Cymru i ddarparu'r cyngor a'r cymorth y bydd eu hangen ar gymuned fusnes Sir Ddinbych i gyflwyno ceisiadau o ansawdd da am gontractau a hysbysebir gan y Cyngor.

Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2021) rydym am ddangos ein bod yn darparu gwell cyfleoedd a mwy ohonynt i fusnesau lleol brynu gan y Cyngor.

Dulliau Newydd

Pam y mae hyn yn bwysig?

Yn ogystal â'r cymorth allanol y mae angen i ni ei ddarparu ar gyfer busnesau, mae angen i ni hefyd edrych yn fewnol ac ystyried sut rydym yn cysylltu â'r farchnad ar gyfer y nwyddau, gwasanaethau a'r gwaith sydd eu hangen arnom. Gall y ffordd y byddwn yn gwneud hyn gael effaith sylweddol ar ba mor ddeniadol a hygyrch fydd y cynnig hwnnw i fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych. Er enghraifft, bydd proses gwerthuso cynigion a chontract sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer gwasanaeth ôl-werthu neu dargedau o ran amseroedd ymateb yn creu cyfleoedd i fusnesau lleol, ond efallai na fydd contractau nad ydynt yn cynnwys y mathau hyn o ofynion yn gwneud hynny. Mae angen i ni hefyd sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i wneud busnes gyda ni drwy adolygu, symleiddio a safoni'r prosesau rydym yn disgwyl i fusnesau eu dilyn wrth gyflwyno ceisiadau i gyflenwi'r Cyngor a chyflenwi contractau yn ddiweddarach.

Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2021) rydym am fod yn hyderus nad yw ein polisïau a'n gweithdrefnau caffael yn rhoi busnesau lleol dan anfantais, a'u bod yn ei chael yn hawdd i wneud busnes gyda ni.

Buddion Cymunedol

Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae buddion cymunedol yn gymalau cytundebol y gellir eu defnyddio i gynnwys nifer o amodau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol wrth gyflenwi ein contractau. Maent yn ein galluogi i gysoni ein gwaith caffael â'n hamcanion corfforaethol a thrwy wneud hyn, maent yn cyfrannu at ein huchelgais o ddatblygu'r economi leol, creu mwy o swyddi a threchu tlodi yn y sir.

Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2021) rydym am ddangos ein bod yn cyflenwi gwell buddion cymunedol, a mwy ohonynt, drwy'r broses gaffael.

CYFLENWI'R STRATEGAETH

Nid yw cyflawni'r canlyniadau a ddisgrifir yn y strategaeth hon yn rhywbeth ar gyfer un gwasanaeth neu dîm o fewn y Cyngor, yn hytrach, bydd angen i bob tîm ac adran gyfrannu. Mae pob gwasanaeth yn caffael, ac felly mae gan bawb gyfraniad i'w wneud i wella ein perfformiad o ran sicrhau gwerth am arian, ac effaith ein gwaith caffael ar yr economi leol.

Cynllun Gweithredu

Ynghlwm â'r strategaeth hon ceir Cynllun Gweithredu sy'n nodi'r camau gweithredu unigol a gynllunnir er mwyn cyflawni'r canlyniadau a gytunwyd. Er mwyn sicrhau eglurder, atebolrwydd a monitro cynnydd yn effeithiol, bydd y Cynllun Gweithredu yn dilyn yr egwyddorion a ganlyn:

- Llunnir adroddiad blynyddol yn nodi manylion perfformiad mewn perthynas â'r Dangosyddion a Mesurau Perfformiad a nodwyd gan y Tîm Caffael Corfforaethol, yn cynnwys manylion gwasanaethau unigol lle bo'r data hynny ar gael ar y lefel hwn;

- Caiff y Cynllun Gweithredu ei adolygu a'i ddiwygio yn flynyddol gan y Tîm Caffael Corfforaethol ar sail yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad y cyfeirir ato uchod, i sicrhau bod camau gweithredu ac adnoddau wedi'u targedu ar sail perfformiad y 12 mis blaenorol;

- Caiff y camau unigol a nodir yn y Cynllun Gweithredu eu bwydo i system Verto'r Cyngor a'u monitro;

- Bydd un rheolwr o'r Tîm Rheolwyr Canol yn gyfrifol am gam gweithredu penodol ac am sicrhau y caiff y cam gweithredu hwnnw'n ei gyflawni, yn hytrach na swyddogion unigol neu dimau. Gall y rheolwr hwn ddirprwyo'r cam gweithredu, neu weithio mewn partneriaeth gyda meysydd eraill yn y Cyngor neu sefydliadau sy'n bartneriaid i gyflawni'r cam gweithredu, ond i ddibenion eglurder ac atebolrwydd dim ond un enw – o blith y Tîm Rheolwyr Canol – a gaiff ei gofnodi yn y Cynllun Gweithredu;

- Bydd pob cam gweithredu yn nodi'n glir pa dystiolaeth fydd ei hangen i ddangos fod y cam gweithredu wedi'i gwblhau. Bydd hyn yn cynnig eglurder ac yn galluogi dull monitro cyson gan ddefnyddio'r system Verto a'r allwedd a ganlyn:

  GWYRDD: ar y trywydd iawn i gyflawni'r cam gweithredu erbyn y terfyn amser a gytunwyd

  MELYN: yn wynebu rhwystrau ac efallai na fydd modd ei gyflawni erbyn y terfyn amser a gytunwyd

  OREN: yn wynebu rhwystrau ac yn annhebygol iawn o'i gyflawni erbyn y terfyn amser a gytunwyd

  COCH: wedi mynd heibio'r terfyn amser ar gyfer cyflawni a heb gwblhau'r cam gweithredu

  GLAS: wedi cwblhau'r cam gweithredu

PERCHNOGION CANLYNIADAU

Er mwyn sicrhau bod yr uwch reolwyr yn ymgysylltu â'r gwaith o gyflenwi'r strategaeth, argymhellir penodi dau aelod o'r Uwch Dîm Arwain yn "Berchennog Canlyniad" ar gyfer pob Canlyniad unigol. Prif bwrpas y swyddogaeth hon fydd monitro'r gwaith o gyflawni'r canlyniad, a darparu trosolwg strategol er mwyn:

- sicrhau y caiff camau gweithredu'r canlyniad eu cwblhau ar amser a'u bod yn cyrraedd trothwy ansawdd derbyniol;
- cael golwg clir ar ddangosyddion a mesurau perfformiad y canlyniad a pharhau i fonitro a gwerthuso a yw'r camau gweithredu a gytunwyd o gymorth i gyflawni'r canlyniad;
- bod o gymorth i sicrhau y defnyddir adnoddau – amser ac arian – yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n gwneud popeth posibl i gyflawni'r canlyniad;
- hyrwyddo'r broses o weddnewid y drefn gaffael a sicrhau y caiff y newid diwylliant angenrheidiol ei wreiddio ymhlith swyddogion ac aelodau; ac
- yn fwy cyffredinol, sicrhau bod y prif rhanddeiliaid yn cyfathrebu a'i gilydd (yn cynnwys cyrff cenedlaethol a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus).

Hefyd, ystyrir ei fod yn briodol i Berchennog Canlyniad rhif 2 hefyd gael ei benodi yn "Bencampwr Buddion Cymunedol" y Cyngor. Caiff y swyddogaeth hon ei hargymell yn Natganiad Polisi Caffael Cymru ac mae ei hangen er mwyn hybu a gwella'r defnydd o fuddion cymunedol yn ein gwaith caffael.

Trefniadau llywodraethu

Eisoes sefydlwyd Bwrdd Gweddnewid Caffael i fonitro'r gwaith o gyflenwi'r strategaeth hon ac adolygu Rheolau Gweithdrefnau Contractau y Cyngor (CPRs). Cynigir bod y Bwrdd yn parhau i gyfarfod er mwyn monitro'r gwaith o gyflenwi'r Cynllun Gweithredu a sicrhau cynnydd o ran cyflawni'r canlyniadau. Aelodau'r Bwrdd o fis Mawrth 2016 yw:

Jamie Groves	Pennaeth Cyllid, Asedau a Thai
Steve Parker	Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Phil Gilroy	Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
Mike Learmond	Cynrychiolydd Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB)/Cynrychiolydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru
Y Cyng. Julian Thompson-Hill	Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithlonrwydd
Y Cyng. Hugh Evans	Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd
Y Cyng.Barbara Smith	Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad
Y Cyng. David Simmons	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad
Y Cyng. Jason McLellan	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant

Bydd y newyddion diweddaraf am gynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau hefyd yn cael eu hadrodd i'r pwyllgorau a grwpiau perthnasol o fewn y Cyngor yn ôl yr angen.